Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

17 Rhagfyr 2012

Annwyl Gydweithwyr

Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, hoffwn eich hysbysu ein bod yn disgwyl y bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael ei gyfeirio atom i'w ystyried yng Nghyfnod 1 yn ystod tymor y gwanwyn 2013. Ar yr amod bod y Bil yn cael ei gyflwyno a'i gyfeirio'n ffurfiol at y Pwyllgor, mae'n debygol y byddwn yn cyhoeddi cais am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil fel rhan o'r gwaith o'i ystyried yng Nghyfnod 1. Y rheswm dros fanteisio ar y cyfle hwn i roi rhybudd i chi ymlaen llaw o fwriad y Pwyllgor yw ei bod yn debygol y bydd y cyfnod ymgynghori ar y Bil yn cael ei gyfyngu i chwech wythnos yn ystod mis Chwefror a dechrau mis Mawrth 2013.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am daith Bil drwy'r Cynulliad yma: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance.htm

Gobeithio bod y rhybudd hwn yn ddefnyddiol i chi. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi neu â Chlerc Deddfwriaethol y Pwyllgor, sef Fay Buckle – 02920 8980 / fay.buckle@cymru.gov.uk.

Yn gywir

Mark Drakeford.

Mark Drakeford AC
Cadeirydd

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8026
E-bost / Email: HSCCommittee@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh